TASG SILLAFU GEIRIAU SYLFAENOL

(GWEINYDDIAETH UNIGOL NEU WEINYDDIAETH GRŴP BACH)

Cyfarwyddiadau Gweinyddu a Sgorio

Gwybodaeth am y Prawf

Beth sy'n cael ei fesur	Mae'r prawf yma yn asesu gallu'r plentyn i sillafu geiriau syml a chyfarwydd iawn y gallent ddod ar eu traws mewn llyfrau plant neu mewn print o gwmpas y lle. Y ddwy eitem gyntaf yw enw'r plentyn ei hun a'r gair MAM; maen nhw'n cael eu defnyddio fel eitemau ymarfer er mwyn dangos i'r plentyn sut i wneud y prawf. Allan o'r wyth gair sy'n weddill, mae tri yn eiriau ystyrlon y gellir eu gweld yn aml, a'r pump arall yn eiriau gramadegol y gellir eu gweld yn aml hefyd.
Ystod Oedran	Mae'r prawf yn addas ar gyfer plant Blwyddyn Derbyn a Blwyddyn 1, ac weithiau mae'n briodol ar gyfer plant hŷn sy'n profi anawsterau darllen a sillafu. Hefyd, er na fydd y rhan fwyaf o blant cyn-ysgol wedi dysgu sut i sillafu eto, mae gan lawer ohonynt rai syniadau am ysgrifennu a, hyd yn oed yn y cyfnod hwn, mae'r hyn y gallent ei sillafu'n rhannol, neu'r hyn maent yn ei ddyfeisio, yn gallu dweud rhywbeth wrthym am eu canlyniadau llythrennedd presennol a hwyrach.
Sgorio (cywirdeb)	Mae pob sillafiad yn cael ei sgorio am gywirdeb "deuaidd", hynny yw, mae'r sgoriwr yn rhoi un pwynt am sillafiadau hollol gywir a dim pwynt am sillafiadau anghywir, sy'n creu sgôr allan o 9 (dydi enw'r plentyn ddim yn cael ei sgorio). Er hynny, mae ymarferwyr yn cael eu hannog i drawsgrifio ac i werthuso'n ansoddol sillafiadau dyfeisio'r plant. Mae'r sillafiadau hyn yn gallu rhoi cipolwg gwerthfawr ar syniadau'r plant am y broses sillafu, ac am safon eu meistrolaeth o'r sgiliau cydrannol sy'n cyfrannu at y gallu i sillafu.
Normau	Ar hyn o bryd, mae'r normau ar gael ar gyfer Blwyddyn 1.
Deunyddiau gweinyddu	Taflen Cyfranogwr a phensel neu ben (pa bynnag un a ddefnyddir fel rheol yn nosbarth y plentyn) i'r sawl sy'n cymryd rhan Cyfarwyddiadau Tasg Sillafu Geiriau Sylfaenol Taflen Sgorio Tasg Sillafu Geiriau Sylfaenol

Gweithdrefn y Prawf

1. Cyflwyniad y Prawf

Mae'r Gweinyddwr yn dweud:

"Rydan ni'n mynd i ymarfer ein hysgrifennu rwan. Dyma bensel a phapur. Dw i'n mynd i ddweud gair a dw i isio i ti ysgrifennu'r gair i lawr ar y papur i mi."

© Caravolas, M., Mikulajová, M., Defior, S., & Seidlová Málková, G. (2018). *Multilanguage Assessment Battery of Early Literacy.* Cedwir pob hawl. Ni cheir atgynhyrchu, copïo, rhannu, na chyhoeddi heb ganiatâd yr awduron.

2. Treialon Ymarfer

Eitem Ymarfer 1: Enw'r plentyn

Mae'r Gweinyddwr yn dweud

"Dw i isio i ti i ddangos i mi sut wyt ti'n ysgrifennu dy enw…"

1) "Ysgrifenna dy enw yma" *[Dylai'r Gweinyddwr bwyntio at y man dechrau ar y Daflen Cyfranogwr]*.

Dylid canmol y plentyn am eu hymgais. Er enghraifft, "Mae hynny'n ymdrech dda!".

Eitem Ymarfer 2: "Mam"

Mae'r Gweinyddwr yn dweud:

2) "Rwan ta, beth am i ni roi cynnig ar ysgrifennu'r gair **MAM**? Sut wyt ti'n ysgrifennu hynny?" *[Dylai'r Gweinyddwr bwyntio at yr ail linell ar y Daflen Cyfranogwr]*.

D.S.: Dylid annog y plentyn i **roi cynnig ar bob eitem**, hyd yn oed os ydyw'n ansicr, neu nad yw'n gwybod. Mae'r Gweinyddwr yn gallu dweud rhywbeth fel "Dim ots gen i os nad wyt ti'n siŵr achos dwyt ti ddim wedi dysgu ysgrifennu eto, ond sut wyt ti'n meddwl y bydden ni'n *gallu* ysgrifennu'r gair **MAM**?".

-Dylai'r Gweinyddwr annog pob ymgais i ddyfeisio sillafiad, gan gynnwys sgriblo a lluniau, a chanmol y plentyn am ei ymdrechion. Dylid annog y plentyn i ysgrifennu un gair ar bob llinell.

-Dylai'r Gweinyddwr siarad ar **gyflymder sy'n gyfforddus**.

-Dylid gweinyddu'r **10 eitem i gyd**, hyd yn oed os yw'r plentyn yn betrusgar neu eu bod yn penderfynu gadael eitem allan. **NI ddylid terfynu'r prawf**.

© (2018). *Multilanguage Assessment Battery of Early Literacy.* Cedwir pob hawl.

3. Cynnal y Prawf

Dylai'r Gweinyddwr ddilyn (darllen ar goedd) y sgript sy'n benodol ar gyfer pob eitem yn y tabl isod:

Rhif yr Eitem	Gair	Sgript
1	**Enw'r plentyn (enw cyntaf a/neu enw olaf)**	"Ysgrifenna dy **enw** yma" *[pwyntiwch at y man dechrau ar y Daflen Cyfranogwr]*.
2	**MAM**	"Rwan ta, beth am i ni roi cynnig ar ysgrifennu'r gair **MAM**? Sut wyt ti'n ysgrifennu hynny?" *[pwyntiwch at yr ail linell ar y Daflen Cyfranogwr]*.
3	**HET**	Rwan ta, beth am y gair **HET**? Fedri di sgwennu'r gair **HET**?
4	**CAR**	Beth am y gair **CAR**? Fel 'y **CAR** cyflym'.
5	**A**	Beth am y gair bach **A**? Fel 'ti **A** fi'.
6	**YR**	Beth am y gair **YR**? Fel '**YR** Wyddfa'. Wyt ti'n clywed y gair **YR**?
7	**YN**	Rwan trïa **YN**. Fel 'cysgu **YN** y gwely'.
8	**MAE**	Rwan trïa **MAE**. Fel '**MAE** Gwen yn mynd i'r ysgol'.
9	**HAUL**	Rwan trïa **HAUL**. Fel 'mae'r **HAUL** yn tywynnu'.
10	**DYMA**	Rwan trïa **DYMA**. Fel '**DYMA** flodyn tlws'.

4. Sgorio

- Dylai'r Gweinyddwr edrych ar y **Daflen Sgorio Prawf Sillafu Geiriau Sylfaenol** er mwyn sgorio'r eitemau.

- Am bob eitem yn y golofn ✓ / ✗ dylai'r Gweinyddwr:
  - ysgrifennu ✓ neu **1** wrth ymyl pob ymateb **cywir**
  - ysgrifennu ✗ neu **0** wrth ymyl pob ymateb **anghywir**, a chopïo'r sillafiad a gafodd ei ddyfeisio gan y plentyn yn y golofn **Copïo Camgymeriad**
  - ysgrifennu **/** os bydd y plentyn yn **pasio gair** neu'n **gwrthod rhoi cynnig** arno, a rhoi sgôr o ✗ neu **0**
- Dylai'r Gweinyddwr roi **un pwynt** am bob sillafiad **cywir**, a **dim pwynt** am bob sillafiad **anghywir**.

© (2018). *Multilanguage Assessment Battery of Early Literacy.* Cedwir pob hawl.